**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**3 AWST 2021**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ar Zoom ddydd Mawrth 3 Awst 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Joe Johnson (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Jean Davies, Robert Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andy Hughes, Dave Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Paul Johnson, Christine Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tim Roberts, Kevin Rush, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Helen Brown, Derek Butler, David Cox, Andy Dunbobbin, Carol Ellis, Rita Johnson, Richard Jones, Colin Legg, Aaron Shotton a Ralph Small.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 32. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

Dywedodd y Prif Weithredwr, yn dilyn ymddiswyddiad David Williams, y bydd is-etholiad Penyffordd yn cael ei gynnal ar 7 Hydref yn dilyn cyhoeddi'r Hysbysiad Etholiad ar 2 Medi.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff(au) 13 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

## 33. PENODIAD PRIF WEITHREDWR

Cyflwynodd Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am y broses benodi a gynhaliwyd fis Gorffennaf i benodi Prif Weithredwr.

O ganlyniad i'r rhaglen asesu penderfynodd y Panel Penodi argymell bod y Cyngor yn penodi Neal Cockerton yn Brif Weithredwr.

Darparodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) sicrwydd i'r Aelodau bod y broses wedi bod yn un cadarn a manwl.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Ian Roberts a'i eilio gan y Cynghorydd Mike Peers. Ar y pwynt hwn gwahoddwyd Mr Cockerton i'r cyfarfod.

Diolchodd y Cynghorydd Roberts i'r Panel Penodi am eu hystyriaethau sylweddol a oedd yn rhoi hyder yn yr argymhelliad a llongyfarchodd Mr Cockerton ar ei benodiad.

Roedd y Cynghorydd Peers yn croesawu'r argymhelliad a dywedodd fod Mr Cockerton wedi dangos y profiad, yr egni a'r ymrwymiad sydd eu hangen i fod yn Brif Weithredwr.

Bu i'r Aelodau ar draws y Siambr longyfarch Mr Cockerton, a diolchodd yntau iddynt am y cynnig gan gadarnhau ei fod yn derbyn y cynnig sy'n anrhydedd ac yn fraint mawr. Ymunodd â'r awdurdod ddeunaw mlynedd yn ôl ac yn y cyfnod hwnnw mae wedi gweithio o fewn sawl maes yn darparu gwasanaethau rheng flaen ac yn arwain prosiectau arloesol. Mae'n edrych ymlaen at y dyfodol yn ei rôl newydd.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo argymhelliad y Panel Penodi i benodi Neal Cockerton yn Brif Weithredwr gydag ystod gyflog o 131,664 i 143,110 (yn amodol ar unrhyw ddyfarniad cyflog), gan ddechrau ar bwynt isaf y golofn gyflog, yn dechrau ar 1 Tachwedd 2021.

## 34. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Dim yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 p.m. a daeth i ben am 2.56 p.m.)

………………………………………….

**Cadeirydd**